Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Y Tu Allan i'r Bocs - Dyfodol S4C

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r argymhellion yn yr adroddiad.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod cylch gwaith S4C yn cael ei ddiwygio i ddileu’r cyfyngiadau cyfredol o ran daearyddiaeth a theledu yn unig.

Ymateb: Derbyn

Mae'n hollbwysig diwygio cylch gwaith S4C i adlewyrchu'r datblygiadau digidol sylweddol a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n hollbwysig bod cylch gorchwyl S4C yn adlewyrchu ein byd amlsianel/aml-lwyfan sy'n datblygu'n gyflym ac yn caniatáu i'r sianel ymgysylltu'n briodol â hynny. Mae talwyr ffi'r drwydded bellach yn disgwyl cael mynediad i'r cynnwys a ddarperir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU drwy lwyfannau niferus, mewn darllediad llinellol neu ar amser sy'n addas iddynt hwy - ble bynnag y bônt (yn y DU neu'r tu hwnt iddi). Mae hyn yr un mor berthnasol i gynnwys Cymraeg, felly mae'n rhaid i S4C gael ei rymuso er mwyn iddi allu diwallu'r anghenion hyn nawr ac addasu yn ôl y gofyn yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gael ei ddiwygio i gynnwys gofyniad penodol i hybu a meithrin y Gymraeg.

Ymateb: Derbyn

Mae gan S4C ran allweddol a pharhaus i'w chwarae o ran sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu. Mae'n helpu i sefydlu a bywiogi'r Gymraeg fel rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru, ac mae ei gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn gwneud cyfraniad pwysig at gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Drwy ei rhaglenni ffeithiol, hanesyddol a diwylliannol, mae S4C yn cyfoethogi cymdeithas Cymru. Mae gan S4C ran bwysig i'w chwarae o ran helpu pobl o bob cefndir i ddysgu'r Gymraeg, drwy ddarparu ystod o adnoddau darlledu ac ar-lein.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod y gofynion y disgwylir i S4C eu bodloni yn cael eu gwerthuso’n llawn fel rhan o adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac yn cael eu nodi mewn trwydded gwasanaeth a ddefnyddir i asesu gofynion cyllido yn y dyfodol, gan gynnwys cyllid ar gyfer llwyfannau digidol newydd a chynnwys ar y llwyfannau hynny.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai'r man cychwyn ar gyfer adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o gyllid S4C fod yn gydnabyddiaeth o faint y toriadau y mae S4C wedi'u dioddef ers 2011-12 gyda chyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar ddiffiniad clir o ofynion y gwasanaeth y disgwylir i S4C ei ddarparu a phennu cyllid ar lefel sy'n galluogi S4C i fodloni'r gofynion hyn yn llwyddiannus.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell, pa bynnag drefniadau cyllido y cytunir arnynt ar gyfer S4C yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, y dylai adolygiadau ac asesiadau annibynnol rheolaidd o anghenion cyllido S4C fod yn nodwedd o unrhyw setliad newydd.

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod mecanwaith ar gyfer sicrhau bod incwm S4C yn cael ei gynyddu yn unol â chwyddiant yn cael ei gynnwys ym mha bynnag setliad cyllid y cytunir arno yn dilyn adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu trefniadau ariannu ac adolygu S4C i rai'r BBC.

Ymateb: Derbyn

Mae'n hanfodol bod yr adolygiad o S4C a gomisiynwyd gan yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried gofynion cyllido S4C. Rhaid cydnabod y toriadau ariannol sylweddol y mae'r sianel wedi eu hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf a'u hystyried yn llawn pan drafodir gofynion cyllido S4C ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ddyletswydd statudol, fel yr amlinellir yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2001, i sicrhau bod S4C yn cael digon o gyllid. Ers yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi'n gyson ei phryder gwirioneddol am yr effaith y bydd rhagor o doriadau ariannol yn ei chael ar S4C. Rydym wedi pwysleisio'n rheolaidd wrth Lywodraeth y DU ei bod yn hollbwysig bod gan S4C ddigon o gyllid, yn ogystal ag annibyniaeth olygyddol a rheolaethol, er mwyn iddi gynnal ei gallu i wasanaethu'r gynulleidfa Gymreig a pharhau i chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi'r Gymraeg a'r diwydiannau creadigol yng Nghymru - ond mae S4C mewn sefyllfa wahanol iawn ers yr Adolygiad o Wariant a gynhaliwyd yn 2010. Bellach, mae 90% o gyllid S4C yn dod o ffi'r drwydded.

Cymerodd Llywodraeth Cymru ran lawn ym mhroses Adolygu Siarter y BBC ac rydym yn falch bod Siarter newydd y BBC yn cynnwys ymrwymiad newydd i wasanaethau Cymraeg. Mae'r Cytundeb Fframwaith sy'n cyd-fynd â'r Siarter yn cadarnhau partneriaeth y BBC ag S4C, gan nodi eu bod yn cydweithio i barchu a diogelu annibyniaeth y ddau gorff. Mae hefyd yn darparu setliad ariannol cryf mewn perthynas ag elfen ffi'r drwydded o gyllid S4C, sy'n hollbwysig er mwyn i S4C barhau i ddatblygu ei gwasanaethau.

Mae'r ansicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y dyfodol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi ei gwneud yn anodd iawn i S4C a'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol, sef rhai o'i gyflenwyr allweddol yng Nghymru, gynllunio ymlaen llaw. Er bod y setliad yn darparu sefydlogrwydd ariannol i S4C tan 2022, bydd y ffaith nad oedd cynnydd mewn cyllid, gan na chaniatawyd ar gyfer chwyddiant, yn naturiol yn creu heriau sylweddol i'r sianel. Gobeithio y bydd y cyhoeddiadau yn ystod y misoedd diwethaf yn sefydlogi sefyllfa ariannol S4C. Mae'r rhain yn cynnwys pecyn Llywodraeth y DU o gyllid cyfalaf a chyllid benthyciadau ychwanegol, yn ogystal â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyrannu £3m o gyllid cyfalaf i gefnogi Yr Egin - prosiect sy'n bwriadu sefydlu canolfan arloesol ar gyfer y Diwydiannau creadigol yng Nghaerfyrddin, yn seiliedig ar bencadlys newydd S4C.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai'r Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon barhau i ddarparu rhan sylweddol o arian cyhoeddus S4C, tra bod S4C yn parhau heb ei datganoli.

Ymateb: Derbyn

Nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig datganoli cyfrifoldebau dros bolisi na chyllido S4C ac mae Llywodraeth Cymru yn dal i gredu na ddylid datganoli darlledu nac elfennau o'r maes darlledu. Hefyd, gallai risgiau ariannol sylweddol fod ynghlwm wrth ddatganoli darlledu gan nad oes sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo hefyd.

Nid oes fawr o amheuaeth na fydd y strwythurau darlledu sydd ar waith ar hyn o bryd yn parhau i esblygu. Cymaint yw arwyddocâd darlledu i'n bywyd datganoledig nes bod yn rhaid dod o hyd i drefniadau, o fewn y setliad cyfansoddiadol presennol, sy'n caniatáu i fuddiannau Cymru gael eu trafod a'u deall ac sy'n caniatáu inni ddadlau o'u plaid. Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i fonitro'r datblygiadau a byddwn yn cyfrannu'n rhagweithiol at y ddadl hon, er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn diogelu buddiannau ac er budd gorau pobl Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried sut y gall atebolrwydd ffurfiol S4C i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei gryfhau.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd S4C bellach yn gosod ei hadroddiad blynyddol a'i chyfrifon gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyfeiriadau ym Mhapur Gorchymyn Dydd Gŵyl Dewi at gynyddu atebolrwydd darlledwyr gan gynnwys S4C.

Dylai'r cyfrifoldeb cyffredinol dros reoleiddio darlledu aros gyda Llywodraeth y DU, ond nid yw hyn yn golygu y dylai'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fod yn atebol i San Steffan yn unig. Rydym wedi cyfeirio'n rheolaidd at bwysigrwydd gwella atebolrwydd sefydliadau darlledu y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i wylwyr a gwrandawyr Cymru.

Rydym wedi galw ers peth amser ar i strwythurau llywodraethu darlledu adlewyrchu realiti datganoli. Buom yn gweithio'n galed i sicrhau bod Siarter newydd y BBC yn rhoi mandad i'r BBC gyflawni llawer mwy i bobl Cymru, a'i bod yn sicrhau bod gan y BBC atebolrwydd priodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Wrth inni baratoi i benodi aelod o Fwrdd Ofcom i gynrychioli Cymru am y tro cyntaf erioed, rydym yn ymwybodol o'r angen i sicrhau trefniadau tebyg ar gyfer darlledwyr eraill yn ogystal ag ar gyfer Ofcom ei hun.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn sicrhau bod amlygrwydd S4C ar ganllawiau EPG yn cael ei wella i sicrhau cydraddoldeb rhwng S4C a Darlledwyr Gwasanaethau Cyhoeddus eraill a bod angen gwneud gwaith rheoleiddio pellach ar setiau teledu smart i roi amlygrwydd dyledus i’r holl ddarlledwyr gwasanaethau cyhoeddus ar ganllawiau EPG ac apiau sydd wedi’u cyn-lwytho.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cytuno â'r egwyddor o sicrhau bod S4C yn cael mwy o amlygrwydd yng Nghymru ar ganllawiau EPG a chymwysiadau setiau teledu smart.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 11: Rydym yn argymell y dylai trefniadau llywodraethu S4C yn y dyfodol amddiffyn safle S4C fel darlledwr a sefydliad annibynnol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio o'r cychwyn ei bod yn hanfodol bod gan S4C annibyniaeth olygyddol a rheolaethol a dylai hyn gael ei amddiffyn mewn unrhyw drefniadau llywodraethu yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai S4C gael ei rheoleiddio gan Ofcom o dan drefniant trwydded gwasanaeth.

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu trwydded gwasanaeth ar gyfer S4C wedi'i rheoleiddio gan Ofcom, cyhyd â'i bod yn gadarn ac yn addas at y diben. Dylai Llywodraeth Cymru yn ogystal â Chynulliad Cenedlaethol Cymru gael mewnbwn i ddatblygu'r drwydded gwasanaeth hon. Wrth gwrs, bu Llywodraeth Cymru yn ymwneud gryn dipyn â datblygu Siarter newydd y BBC, a arweiniodd at ei rheoleiddio gan Ofcom, ac ymatebodd yn fanwl i ymgynghoriad diweddar Ofcom ar Drwydded Weithredu y BBC. Rydym wedi herio Ofcom i gryfhau trwydded ddrafft y BBC mewn nifer o feysydd ac ni wyddom eto a fydd Ofcom yn ymateb yn gadarnhaol i hyn ac yn pennu trwydded a fydd yn caniatáu i'r BBC gael ei ddwyn i gyfrif yn briodol am ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom yng Nghymru. Dyma hefyd y dull y byddai angen ei fabwysiadu ar gyfer unrhyw drwydded a allai gael ei phennu gan Ofcom maes o law ar gyfer S4C.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Awdurdod presennol S4C gael ei ddisodli gan fwrdd unedol, a ddiogelir gan statud neu Siarter, sy’n debyg i fodel presennol y BBC.

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Byddai hyn yn newid sylweddol iawn, ond byddai Llywodraeth Cymru yn fodlon trafod hyn ymhellach gyda Llywodraeth y DU ac S4C. Byddai'n briodol ystyried hyn ochr yn ochr ag unrhyw gynigion y gellid eu cyflwyno i drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio i Ofcom - yn wir, dylai'r ddau gynnig hyn gael eu hystyried gyda'i gilydd, fel yn achos y BBC. Dylai Llywodraeth Cymru yn ogystal â Chynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrannu at ddatblygu'r trefniadau hyn ac unrhyw Siarter y gallai fod ei hangen os penderfynir bwrw ymlaen â hwy, i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cyflawni dros bobl Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod adolygiad yr Adran dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen er mwyn hwyluso cydweithio gwell rhwng S4C a chynhyrchwyr annibynnol i wella’r defnydd masnachol o raglenni Cymraeg drwy nodi a marchnata cyfleoedd masnachol a thrwy rannu risgiau a manteision.

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried cefnogi newidiadau sy'n caniatáu i gynnwys sydd wedi'i gynhyrchu er budd pobl Cymru, gan ddefnyddio arian cyhoeddus, barhau i fod ar gael a chael ei ddosbarthu mewn ffyrdd arloesol i gynulleidfa mor eang â phosibl.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell y dylai S4C flaenoriaethu gweithio ar y cyd gyda chynhyrchwyr annibynnol i rannu risgiau a manteision a gwella'r defnydd masnachol o raglenni

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Mater i S4C a'r diwydiant yng Nghymru yw hwn, ond mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi cefnogi cydweithio a datblygu partneriaethau gadarn sy'n hyrwyddo twf economaidd ac yn darparu gwell gwasanaethau i bobl ledled Cymru.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai weithio gydag S4C i gomisiynu gwaith neu gynnwys sydd â'r nod o ategu ei hamcanion ar gyfer cefnogi'r Gymraeg.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio mewn partneriaeth ag S4C ar nifer o fentrau i hyrwyddo'r Gymraeg. Dylai hyn barhau ac mae gan S4C ran bwysig i'w chwarae, fel darlledwr annibynnol, wrth gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a chyfrannu at y nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 17. Rydym yn argymell y dylai cylch gwaith S4C gynnwys gofyniad penodol i weithio ar y cyd gyda'r BBC a sefydliadau eraill yng Nghymru sy'n darparu neu'n cefnogi cyfryngau Cymraeg ar draws amrywiaeth o lwyfannau.

Ymateb: Derbyn

Croesawodd Llywodraeth Cymru y cyhoeddiad yn 2013 fod Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C wedi dod i gytundeb chwe blynedd ar gyllid, llywodraethu ac atebolrwydd S4C ar gyfer y dyfodol. Yn bwysig ddigon, roedd y cytundeb hefyd yn diogelu annibyniaeth olygyddol a rheolaethol S4C. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei chalonogi gan y cynnydd yn y cydweithio rhwng y BBC ac S4C - a hefyd gan y ffaith bod y Cytundeb Gweithredu yn llawer ehangach na'r trefniadau cyllido ac atebolrwydd, gan ymestyn i bartneriaeth greadigol ar bob lefel o fewn y BBC ac S4C.

Rydym hefyd yn croesawu'r bartneriaeth gryfach sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf rhwng Radio Cymru ac S4C. Dim ond un gwasanaeth radio Cymraeg ac un gwasanaeth teledu Cymraeg sy'n bodoli o hyd. Felly mae'n hanfodol bod y bartneriaeth rhwng y ddau wasanaeth mor ddychmygus a chynhyrchiol â phosibl.

O ystyried y newidiadau sylweddol a gynhwysir yn Siarter newydd y BBC - i'w threfniadau rheoli, llywodraethu a rheoleiddio; i rôl Stiwdios y BBC; ac i ddibenion cyhoeddus cryfach y BBC mewn perthynas â'r gwledydd unigol - mae'n hanfodol bod y bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC yn cael ei diweddaru a'i hadnewyddu, er mwyn cefnogi a galluogi twf ac arallgyfeirio gwasanaethau S4C mewn byd aml-lwyfan.

Yn ogystal â gweithio ar draws llwyfannau, dylai S4C barhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid perthnasol.

Goblygiadau Ariannol - Dim

Argymhelliad 18. Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i bob darlledwr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ddarparu rhan o'u cynnwys yn y Gymraeg.

Ymateb: Derbyn o ran Egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn naturiol yn croesawu unrhyw gynigion i ymestyn y defnydd o'r Gymraeg. Yn amlwg, mater i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau yn benodol i Gymru yw'r argymhelliad hwn a byddem yn awyddus i glywed ganddynt ynglŷn â sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.

Goblygiadau Ariannol - Dim